Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

**Digwyddiad lansio Cymru o ran trydydd argraffiad Safon Respect: Gwaith diogel, effeithiol ac atebol gyda throseddwyr trais a chamdrin domestig**

**Noddir gan Mark Isherwood AC a Bethan Jenkins AC**
**13 Rhagfyr 2017, 12: 30 - 13:30**
**Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mark Isherwood AC (Cyd-gadeirydd)
Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a Phrif Chwip (siaradwr)
Kelly McGuire - Relate (siaradwr)
Jo Todd - Respect (siaradwr)
Hilary Watson - Cymorth i Fenywod Cymru (cofnodion)
David Rowlands AC
Jane Hutt AC
Sara Kirkpatrick - Respect
Tina Reece - Cymorth i Fenywod Cymru
Eleri Butler - Cymorth i Fenywod Cymru
Gwilym Roberts - Relate
Kay Quinn - Atal y Fro
Sophie Hirst - Atal y Fro
Cathy - Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu, Cymorth i Fenywod Cymru
Cerys Miles – Gwasanaeth y Carchardai (HMPS)
Mel Uwch - Barnardo's
Martin Kaid - Barnardo's
Natalie Southgate - Cyngor Caerdydd (gwasanaeth rhyw-benodol)
Nicola Jones - Cyngor Caerdydd
V. Pendicini - Threshold DAS (Domestic Abuse Service)
DR Evans - Threshold DAS
L. Elton - Threshold DAS
Ellie Taylor - Calan DVS (Domestic Violence Service)
Luke Ivens - Phoenix Domestic Abuse
Cath James - Phoenix Domestic Abuse
Susan Curly - Phoenix Domestic Abuse
Elin Nicholson - Chwarae Teg
Darren O'Connell - Merthyr Diogel
Ceri Melhuish-Thomas – Mudiad Tadau Dads Can
Rosie McGuigan – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Frances Beecher - Llamau
Bethan Phillips – Cynulliad Cenedlaethol
Paula Hardy - Heddlu'r De
Mutale Merrill - Bawso
Eleri Evans

**Ymddiheuriadau:**
Bethan Jenkins AC (Cyd-gadeirydd)
Llyr Gruffydd AC
Simon Thomas AC
Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Michelle Pooley - DAS Gorllewin Cymru
Cheryl Emery – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Catherine Fookes - WEN Cymru
Amy Price - Annibynnol
Kate Jones - Cymorth i Fenywod Port Talbot ac Afan
Sophie – Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu, Cymorth i Fenywod Cymru
Siân Morgan - Hafan Cymru
Ceri Wood - Tîm Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Gwent
Rachel Allen - Heddlu Gwent

| **Cofnodion** |
| --- |
| Y cyfarfod, o dan gadeiryddiaeth Mark Isherwood AC, oedd y digwyddiad lansio yng Nghymru ar gyfer safonau 'Respect' newydd (3ydd rhifyn) pan oedd Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, yn sôn am weithio'n ddiogel gyda throseddwyr trais a cham-drin domestig.<br><br>Oherwydd cyfyngiadau amser y lansiad, caiff cofnodion y cyfarfod diwethaf eu gwirio yn y cyfarfod nesaf. |
| **Siaradwyr**<br>*Jo Todd, Prif Swyddog Gweithredol Respect UK*<br>'Cyflwyniad i'r Safonau Achredu newydd: Arfer diogel ac effeithiol wrth weithio gyda throseddwyr'<br><br>*Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip*<br>'Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i waith gyda throseddwyr yng Nghymru'<br><br>*Kelly McGuire, Rheolwr Datblygu, Relate*<br>'Darparu rhaglenni troseddwyr yng Nghymru' |
| **Trafodaeth**<br>**Safonau newydd:** Mae Respect wedi datblygu'r Safonau Achredu newydd, sef fframwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gweithio gyda throseddwyr trais a cham-drin domestig a ategir gan 10 egwyddor allweddol, sy'n canolbwyntio ar newid ymddygiad a rheoli risg, fel y gall y cyhoedd, gan gynnwys goroeswyr a throseddwyr, arianwyr, comisiynwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, gael sicrwydd y cynigir gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch. Mae meysydd gwaith newydd eraill hefyd yn datblygu ac yn darparu ymyriadau, gan gynnwys: gweithio gyda phobl ifanc sy'n defnyddio trais a cham-drin tuag at aelod o'r teulu; ymyriadau i ddileu ymddygiad treisiol ac i reoli troseddwyr risg uchel; gweithio gyda menywod sy'n defnyddio trais yn erbyn dynion a gweithio gyda'r rheini sydd mewn perthynas â rhywun o'r un rhyw.<br><br>Nodwyd gan Respect bod y safonau newydd eu diweddaru yn adlewyrchu'r tirwedd a'r arfer newydd yn y maes sy'n dod i'r amlwg, sef gweithio gyda throseddwyr cam-drin domestig (DA), a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r sector arbenigol, fel Cymorth i Fenywod Cymru. Dywedwyd hefyd bod diogelwch y rhai sydd wedi goroesi a'u plant wrth wraidd y safonau. Parhaodd Jo drwy gadarnhau bod y safonau newydd yn cwmpasu pawb, p'un a ydynt yn cael eu cymell i newid ai peidio, gyda'r fframwaith arloesi ac egwyddorion newydd yn sail i'r safonau. Amlygodd Mark Isherwood AC y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r 'safon aur' hon.<br><br>**Y cyd-destun Cymreig:** Relate ar hyn o bryd yw'r unig sefydliad achrededig yng Nghymru, a dywedant fod gweithio o fewn y safonau hyn yn galonogol ac yn werth y gost. Ychwanegodd Respect y bydd mwy o sefydliadau yng Nghymru hefyd yn mynd drwy'r broses achredu yn fuan - gan eu bod wedi bod yn aros am y safonau newydd cyn dechrau.<br><br>**Cam-drin domestig yn unig:** mae'r safonau ar hyn o bryd yn mynd i'r afael â thrais domestig a throseddwyr sy'n cam-drin yn unig. Dywedwyd y byddai angen sylfaen |

dystiolaeth ar gyfer y ffordd orau o weithio gyda throseddwyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ehangach i'w gwneud yn briodol ar gyfer pob math o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae gan Respect ddiddordeb mewn datblygu hyn yn y dyfodol.

**Cyflwyniad gan Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip:** Croesawodd Julie James AC y wybodaeth gan y sector Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol arbenigol i'w helpu i ddatblygu ei dealltwriaeth o'r portffolio a sut y gall polisïau Llywodraeth Cymru gael eu rhoi ar waith.

**Cymorth i Fenywod Cymru – 40ain mlwyddiant:** Cyhoeddodd Jane Hutt AC ei bod yn noddi'r digwyddiad 40ain mlwyddiant 'Still We Rise' yn y Pierhead, ar 25 Ionawr 2018 rhwng 4 a 6pm. Anogodd y rhai a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Trawsbleidiol i ymuno â hi i ddathlu 40 mlynedd ers sefydlu Cymorth i Fenywod Cymru.

**Comisiynwyr:** mynegwyd pryderon bod comisiynwyr yng Nghymru yn gwneud niwed ac y gallai pethau fod yn anniogel. Mynegwyd pryder ynglŷn â chodi statws arian wedi'i neilltuo y Grant Cefnogi Pobl yn benodol, a dywedodd Jane Hutt AC y byddai'n cyflwyno'r pryder hwn i Julie James AC. Amlygodd Mark Isherwood AC hefyd ei fod wedi codi'r pwynt hwn yn y drafodaeth ar y gyllideb ddrafft yr wythnos flaenorol.

**Camau i'w cymryd:**

1. Drafftio llythyr at Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, am bryderon gan y Grŵp y gallai comisiynwyr yng Nghymru fod yn gwneud niwed o ran Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r sector arbenigol a manylion eraill.

2. Dosbarthu'r gwahoddiad ar gyfer y digwyddiad i ddathlu 40 mlwyddiant Cymorth i Fenywod Cymru, 'Still We Rise', ar 25 Ionawr 2018.

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben am 13:30.**